**Cyfarfod Partneriaeth**
**Tyfu Canolbarth Cymru**
**Ystafell 1, Canolfan Rheidol, Aberystwyth, SY23 3UE**
**Dydd Gwener, 24ain Mawrth 2017**
**10:00- 12:25pm**

**Yn bresennol**

- **Ann Elias – Cyngor Sir Ceredigion**
- **Arwyn Watkins – NTFW/ RSLP**
- **Bronwen Morgan – Prif Weithredwr – Cyngor Sir Ceredigion**
- **Ceri Stephens - Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru**
- **Claire Miles – Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru**
- **Cyng. Alun Williams – Cyngor Sir Ceredigion**
- **Cyng. Gareth Lloyd – Cyngor Sir Ceredigion**
- **Cyng. Barry Thomas – Arweinydd, Cyngor Sir Powys (Is-gadeirydd)**
- **Cyng. Ellen Ap Gwynn – Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (Cadeirydd)**
- **Dr Rhian Hayward – Prifysgol Aberystwyth a Champws Arloesi a Menter Aberystwyth**
- **Jan McDonald, Cyngor Sir Powys**
- **Jane Lewis – Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol**
- **Jenni Thomas – Cyngor Sir Powys**
- **John Jones – Llywodraeth Cymru**
- **Mared Jones – UAC**
- **Mike Shaw – Cyngor Sir Ceredigion**
- **Paul Griffiths – Cyngor Sir Powys**
- **Rob Halford – Llywodraeth Cymru**
- **Vivienne Lewis – Llywodraeth Cymru**

**Hefyd yn bresennol**

- **Seren Jones – Cyngor Sir Ceredigion**
- **Felicity Llewelyn – Cyngor Sir Powys**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**<br><br>Croesawodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Barry Thomas, Cyngor Sir Powys, bawb i'r cyfarfod. Esboniodd yr Is-gadeirydd mai hwn oedd ei gyfarfod Partneriaeth TCC olaf, am ei fod yn rhoi'r gorau i'w rôl fel Arweinydd Cyngor Sir Powys ar ôl yr Etholiad ar Mai 4ydd 2017. Dywedodd yr Is-gadeirydd fod Cadeirio Partneriaeth TCC | |

| | | |
|---|---|---|
| | dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn anrhydedd enfawr a'i fod yn hynod falch o waith y Bartneriaeth hyd yn hyn. Dymunodd yn dda i'r Bartneriaeth yn y dyfodol.<br><br>Mynegodd Cadeirydd y Cyfarfod, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, ei diolch i'r Cynghorydd Barry Thomas am yr holl waith a wnaed ar y cyd gan Bartneriaeth TCC hyd yn hyn. Dymunodd y Cadeirydd yn dda i'r Cynghorydd Barry Thomas ar ei ymddeoliad, a nododd fod y Bartneriaeth yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Arweinydd Cyngor Sir Powys fyddai'n ei olynu ar ôl yr etholiad ym Mai 2017.<br><br>Nodwyd er gwybodaeth hefyd bod Dr Sue Fish yn dychwelyd i'w rôl fel Meddyg Teulu llawn amser, ac na fydd hi bellach yn aelod o Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth.<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth:<br>• Y Cyng. Tony Thomas – Cyngor Sir Powys<br>• Ann Watkin – Llywodraeth Cymru<br>• Dr Rhodri Llwyd Morgan – Prifysgol Aberystwyth<br>• Dr Sue Fish – Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth<br>• Hazel Lloyd Lubran – CAVO<br>• Hywel Davies – Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant<br>• Jacqui Weatherburn – Coleg Ceredigion<br>• Paul Evans – Venture- Automotive<br>• Peter Howells – Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr<br>• Russell Hughes- Pickering – Cyngor Sir Ceredigion<br>• Sue Bolter – Cyngor Sir Powys | |
| **2.** | **Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Ionawr 2017 a Materion yn Codi (Atodiad A)**<br>Nododd y Bartneriaeth fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Ionawr 2017 yn gywir. | 2. DRAFT GMW MINUTES 06.01.2017 |
| **3.** | **<u>Materion yn Codi</u>**<br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi. | |
| **4.** | **Cyfarfodydd a fynychwyd gan aelodau'r Bartneriaeth**<br>• **Lesley Griffiths AC, CSERA; cyfarfod 16eg Ionawr 2017**<br>• **Julie James AC, Y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth: cyfarfod 2il Chwefror 2017**<br>• **Guto Bebb AS / OFCOM, Uwchgynhadledd Signal Ffonau Symudol, 12fed Ionawr 2017** | 4. JulieJameshostsMNO: |

- **Gweithgor Traws-sector y Cynulliad:  Materion trawsffiniol**
- **LEADER/RSPB/Cynidr, Beth yw'r dyfodol i Ffermio Mynydd yng Nghymru tu hwnt i PAC, 15fed Mawrth 2017**
- **Vodafone / New Statesman Roundtable; 'Digitalised Progress: Realising the digital potential of Wales', 1af Mawrth 2017**
- **Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith / Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol; Diwrnod Rhanddeiliaid Cymru 17eg Mawrth 2017.**

Cafwyd diweddariadau manwl ar y cyfarfodydd uchod.  Ceir gwybodaeth bellach yn yr Adroddiad sydd ynghlwm hefyd. Nodwyd y canlynol:

**<u>Lesley Griffiths AC – Cyfarfod CSERA – 16eg Ionawr 2017</u>**
Mynychodd y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac MS gyfarfod gyda Lesley Griffiths AC.  Nodwyd bod cefnogaeth wedi'i dderbyn i fynd ymlaen â'r Cyfarfod Partneriaeth TCC, a thrafodwyd materion rhanbarthol.

**<u>Julie James AC, Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth:  cyfarfod 2il Chwefror 2017</u>**
Cafwyd diweddariad ar y cyfarfod uchod lle trafodwyd pwysigrwydd sgiliau/band eang ar gyfer y rhanbarth, yn ogystal  â materion polisi gwyddoniaeth sy'n effeithio ar y rhanbarth, ynghyd â'r heriau o ran sgiliau.

**<u>Guto Bebb AS / OFCOM, Uwchgynhadledd Signal Ffonau Symudol, 12fed Ionawr 2017</u>**
Nodwyd bod Ceri Stephens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru wedi cynrychioli Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn y cyfarfod.  Cafwyd trafodaethau ynghylch y signal ffonau symudol mewn adeiladau cyhoeddus, a gwella'r signal ar draws y rhanbarth ac yng Nghymru.  Cafwyd trafodaeth hefyd ynghylch codi trothwy mastiau ffonau symudol o 15 metr i 25 metr i wella'r signal.

**<u>Gweithgor Traws-sector y Cynulliad:  Materion trawsffiniol</u>**
Dosbarthwyd nodyn briffio o'r cyfarfod i aelodau'r Bartneriaeth er gwybodaeth.

**<u>LEADER/RSPB/Cynidr, Beth yw'r dyfodol i Ffermio Mynydd yng Nghymru tu hwnt i PAC, 15fed Mawrth 2017</u>**

4. Guto Bebb MP-OFCOM.DOCX

4. NAW Cross Sector Working Group - Cros

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd bod hwn yn cynnwys gwybodaeth am y Polisi Gwledig yn y dyfodol, a chyfleoedd ar gyfer prosiectau ymyrraeth mawr a bach.<br><br>**<u>Vodafone / New Statesman Roundtable; 'Digitalised Progress: Realising the digital potential of Wales', 1af Mawrth 2017</u>**<br>Adroddodd y Cadeirydd ar y cyfarfod hwn gan nodi mai'r neges a bwysleisiwyd yn y cyfarfod oedd na all y rhanbarth weithredu a datblygu oni bai bod yr holl rwydweithiau yn eu lle, bod angen cyfleoedd trawsrwydweithio ar Gymru, a bod angen ystyried newid o wasanaeth 4G i 5G. | |
| **5.** | **Cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru:**<br>**Cysoni'r Model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru - Ardoll Brentisiaethau**<br>Cafwyd cyflwyniad gan John Jones, Llywodraeth Cymru ar yr Ardoll Brentisiaethau (copi ynghlwm). Roedd y cyflwyniad yn trafod:<br><br>• Manylion y Polisi Prentisiaethau<br>• Cyfleoedd Cyflenwi<br>• Camau pellach<br>• Manylion yr Ardoll Brentisiaethau<br>• Manylion y Rhaglen Sgiliau Hyblyg<br>• Y Rhaglen Cyflogadwyedd newydd<br><br>Yna cafwyd trafodaeth fanwl a chyfle i ofyn cwestiynau.<br><br>Gofynnodd CM a fyddai modd cael y Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn gweithio gyda chlystyrau o fusnesau bach a chanolig yng Nghanolbarth Cymru, gan arwain at gyfleoedd i sefydlu clystyrau sector ar draws ardal ddaearyddol ehangach? Cytunwyd y dylai JJ a CM gael trafodaeth bellach tu hwnt i'r cyfarfod.<br><br>**Gweithredu: JJ a CM i gael trafodaeth bellach.**<br><br>Cytunwyd hefyd ei bod hi'n bwysig edrych ar Gynlluniau Datblygu Gweithlu Awdurdodau Lleol, a sut mae prentisiaethau'n cael eu defnyddio ar draws y gweithlu i uwchraddio sgiliau gweithwyr a chadw swyddi a phobl ifanc o fewn awdurdodau.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i JJ am ei gyflwyniad heddiw. | GMWP Skills Programmes Update. |
| **6.** | **Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol: Diweddariad:**<br>Rhoddodd Jane Lewis (JL) ddiweddariad ar y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol. Nododd JL eu bod wrthi'n llunio'r cynllun | |

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Powys Ceredigion

| | | |
|---|---|---|
| | drafft nesaf ar gyfer Llywodraeth Cymru. Nododd JL fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn iddyn nhw ymgysylltu mwy â diwydiannau i gasglu gwybodaeth ar gyfer y cynllun a'r argymhellion a geir ynddo. Dywedodd JL eu bod wedi ymgynghori dros y ddeufis diwethaf â grwpiau o glystyrau sector ar draws y rhanbarth a thros 100 o fusnesau, sydd wedi darparu llawer o wybodaeth. Mae gwybodaeth wedi'i chynnwys hefyd am Ddeddf yr Iaith Gymraeg a sut mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar ddatblygiad o fewn sectorau.<br><br>Nododd JL fod angen cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru erbyn 28ain Gorffennaf 2017 ac mi fyddai'n gofyn am gymeradwyaeth Partneriaeth TCC cyn hynny. Bydd y Cynllun hefyd yn mynd gerbron y Bwrdd Rhanbarthol ar 11eg Mai 2017.<br><br>Mynegwyd pryder mai'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru oedd dyddiad cyfarfod nesaf Partneriaeth TCC hefyd, felly ni fyddai digon o amser i'r Bartneriaeth ystyried y Cynllun. Oherwydd anawsterau ail-drefnu dyddiad cyfarfod nesaf y Bartneriaeth, cytunwyd y dylid dosbarthu dogfennau'r Cynllun i holl aelodau'r Bartneriaeth, a'u gwahodd i wneud sylwadau dros e-bost i'w trafod gan y Gweithgar Traws-sector, a bod ymateb drafft yn cael ei ddosbarthu trwy e-bost i'w drafod cyn cyfarfod y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol ar 20fed Gorffennaf.<br>**Gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i drefnu i ddosbarthu'r dogfennau er mwyn caniatáu i'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol gyflwyno sylwadau.**<br><br>Cytunodd y Bartneriaeth hefyd i enwebu Mike Shaw i barhau fel cynrychiolydd Tyfu Canolbarth Cymru ar Fwrdd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol.<br><br>**Gweithredu: MS i barhau i gynrychioli Partneriaeth TCC ar Fwrdd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol.**<br><br>Nododd JL y byddai'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol drafft ar gyfer De Orllewin a Chanolbarth Cymru, a'r Diweddariad ar Ymgysylltu â Chyflogwyr yn cael eu dosbarthu i bawb yn dilyn cyfarfod y Bartneriaeth heddiw.<br><br>**Gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol drafft ar gyfer De Orllewin a** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Chanolbarth Cymru a'r Diweddariad ar Ymgysylltu â Chyflogwyr i bawb.** | |
| 7. | **Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru (cyfarfod 7fed Chwefror 2017)**<br><br>Dosbarthwyd cofnodion Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru a nodwyd, yn sgil cytuno ar hynny yng nghyfarfod diwethaf y Bartneriaeth (6ed Ionawr 2017) y dylid datblygu cysylltiadau â Thwristiaeth ar gyfer Canolbarth Cymru.<br><br>Nodwyd bod Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru wedi penodi Cadeirydd newydd, a chytunodd y Bartneriaeth y dylid ei wahodd i fynychu cyfarfodydd Partneriaeth TCC yn y dyfodol.<br><br>**Gweithredu: Cadeirydd Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru i'w wahodd i gyfarfodydd y Bartneriaeth yn y dyfodol (Gweinyddol).** | 7. Mid Wales Regional Forum Minut |
| 8. | **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, cadarnhau'r ymateb a gytunwyd trwy e-bost.**<br><br>Cyfeiriwyd at yr adroddiad sydd ynghlwm, sy'n nodi ymateb Partneriaeth TCC i alwad Llywodraeth Cymru am brosiectau tystiolaeth ar gyfer Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd i Gymru.<br><br>Nodwyd bod tri o weithgorau traws-sector TCC wedi cwrdd â swyddogion polisi Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys, ac wedi gweithio ar y cyd i baratoi ymateb rhanbarthol.<br><br>Nodwyd bod yr ymateb wedi'i ddosbarthu i aelodau'r Bartneriaeth i gytuno arno a chyflwyno'u sylwadau, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 6ed Mawrth 2017.<br><br>Nododd a chadarnhaodd y Bartneriaeth yr ymateb a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.<br><br>Nodwyd nad yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn debygol o gael ei gymeradwyo tan 2020. | 8. NDF Cover Template .pdf<br><br>8. GMW National Development Framew |
| 9. | **Ystyried ymateb i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru "Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad" (i'w gyhoeddi 11eg Ebrill)** | 9. Reforming Local Government - Resilier |

Powys Ceredigion

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynodd BM yr Adroddiad sydd ynghlwm ynghylch ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad', er mwyn i'r Bartneriaeth gytuno i anfon ymateb bras (drafft ynghlwm) yn sgil llythyr a anfonwyd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC ar 19eg Rhagfyr 2016, yn pwysleisio pwysigrwydd Partneriaeth TCC i economi rhanbarthol Canolbarth Cymru, a phwysigrwydd parhau â'r gwaith.<br><br>Aeth BM â'r Bartneriaeth trwy'r ymateb drafft fesul cam ac yna cafwyd trafodaeth fanwl.<br><br>Cytunodd y Bartneriaeth i'r ymateb drafft, ond roeddent am roi pwyslais pellach ar y canlynol:<br><br>• Papur gwyrdd Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU – 'Building our Industrial Strategy'<br>• Pwysleisio pwysigrwydd TCC i ranbarth Canolbarth Cymru<br>• Buddsoddi yng Nghanolbarth Cymru i sicrhau Cymru gydlynol<br>• Heriau o ran sgiliau a phrentisiaethau<br>• Gweithio gyda chlystyrau i helpu i ddatblygu'r economi | |
| **10.** | **Cyfarfodydd y Gweithgor Traws-sector – Ymgysylltu Rhanbarthol: Adroddiad Diweddaru, Chwarter 1 2017**<br><br>Rhoddodd MS ddiweddariad manwl ar Ymgysylltu Rhanbarthol Chwarter 1, 2017. Ceir gwybodaeth bellach yn y ddogfen sydd ynghlwm.<br><br>Tynnodd MS sylw'r Bartneriaeth at y pwynt bwled olaf ar y dudalen gyntaf mewn perthynas â SmartCymru. Nododd MS fod rhan ohono'n cefnogi Llywodraeth Cymru a gall y rhan arall gael ei arwain gan fusnesau. Nododd MS ei bod hi'n bwysig bod Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru'n ymwybodol o hyn, am fod yna gyfle i weithio'n agosach yno.<br><br>Nodwyd bod trafodaethau wedi'u cynnal yng nghyfarfod diwethaf y Bartneriaeth (6ed Ionawr 2017) ar yr alwad agored am weithrediadau ymchwil arloesol. Cyflwynwyd 45 o gynigion; un neu ddau ohonynt gan Lywodraeth Cymru a nifer ohonynt o ranbarth Tyfu Canolbarth Cymru. | 10. Regional Engagement Report ( |

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddosoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunodd Partneriaeth TCC i'r argymhellion a geir yn adroddiad MS fel a ganlyn:-<br><br>**Llywodraeth Cymru: Gweithrediadau GCC a DC; Arbed 3**<br><br>• Gofyn i WEFO a thîm Arbed LIC i roi eglurhad pellach ar y diffiniad o ardaloedd targed ar gyfer y gweithrediadau hyn;<br>• Gofyn i Lywodraeth Cymru am eglurhad ar y dystiolaeth dderbyniol i'w defnyddio mewn ceisiadau oddi wrth awdurdodau lleol, a;<br>• Cyfeirio'r angen am ddata cyffredin i dystio i dlodi tanwydd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.<br><br>**Prifysgol Cymru: Gweithrediad GCC; ASTUTE 2020**<br><br>• Croesawu'r gweithrediad a chyfraniad posib Prifysgol Aberystwyth i'r gweithrediad<br>• Croesawu'r posibilrwydd o weithrediad cyfochrog yn Nwyrain Cymru, y gallai cwmnïau ym Mhowys ei gyrchu<br>• Archwilio ymhellach y rhyngweithio a'r trawsgyfeirio rhwng gweithrediad ASTUTE 2020, gweithrediadau eraill sy'n ymgysylltu â busnesau sy'n tyfu, yn ogystal â rhaglenni eraill mwy cyffredinol sy'n cefnogi ymchwil ac arloesedd ym myd busnes, er mwyn sicrhau bod y gweithrediadau hyn yn cael yr effaith fwyaf posib ar lefel ranbarthol.<br><br>**Llywodraeth Cymru, Gweithrediad Adfywio GCC; 'Adeiladu ar gyfer y Dyfodol':**<br><br>• Cadarnhau'r prosiectau blaenoriaeth a gytunwyd eisoes:<br>1. Swyddfa'r Sir,<br>2. Safle Hen Swyddfa Bost Aberystwyth a,<br>3. Cei Cambrian (Stwnsh Aberteifi)<br>• Ychwanegu pedwerydd prosiect blaenoriaeth rhanbarthol, sef<br>4. Adeilad Marchnad Aberteifi | |

| | | |
|---|---|---|
| | • <u>Peidio â rhoi blaenoriaeth</u> i'r Hen Ysgol Gymraeg o fewn y gweithrediad hwn.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i MS am ei ddiweddariad heddiw. | |
| **11.** | **Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd**<br>Cyflwynodd MS yr adroddiad sydd ynghlwm ar adolygu'r Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd. Mae'r Fframwaith yn ddogfen a ddefnyddir gan WEFO ac mae'n gosod y cyd-destun o ran buddsoddi o fewn y 4 rhanbarth yng Nghymru. Gofynnwyd i'r 4 rhanbarth i adolygu a diweddaru'r Fframwaith. Cafodd fframwaith Canolbarth Cymru ei ddiweddaru ddiwethaf yn 2016 a bydd nawr yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn barod i'w gyflwyno erbyn 29ain Mawrth 2017.<br><br>Nododd y Bartneriaeth fod pethau'n symud ymlaen ar gyfer cwblhau erbyn Mawrth 29 2017, a gofynnwyd i'r Aelodau i gyflwyno awgrymiadau i'w cynnwys yn yr adolygiad. | 11. Revision of the Economic Prioritisatio |
| **12.** | **Dyfodol Polisi Rhanbarthol yng Nghymru, nodi datblygiadau**<br><br>Cyflwynodd RH y Papur sydd ynghlwm i'r Bartneriaeth. Nododd RH y bydd Brexit yn cael ei danio ar Ddydd Mercher 29ain Mawrth 2017. Nododd RH fod LIC wedi bod yn cynnal deialog â Llywodraeth y DU ynghylch beth fydd hynny'n ei olygu i Gymru. Mae'r Papur Gwyn yn cael ei ddefnyddio i ddiogelu dyfodol Cymru, ac o fewn y ddogfen honno, honnir y dylai Cymru barhau i elwa o lefel debyg neu lefel uwch o gyllid. Mae yna gymwyseddau ynghlwm â'r ffordd y defnyddir yr arian yma yng Nghymru o'i gymharu â lefel Llywodraeth y DU, ac mae'r papur yn adlewyrchu'r pryderon a fynegwyd yn ystod cyfarfodydd Tyfu Canolbarth Cymru. Mae'r papur yn ceisio awgrymu cwpwl o egwyddorion a sylfeini'r hyn a ddaw nesaf, a ddylai fod yn rhan o ymgynghoriad dros y misoedd sydd i ddod.<br><br>Defnyddir y papur ar gyfer trafodaeth Grwpiau UE Ymgynghorol.<br><br>Cytunwyd y byddai'n fuddiol cynnal seminar i drafod y papur yn nes ymlaen yn y flwyddyn. | 12 Grwp Cynghori ar Ewro Dyfodol Polisi R |

| | | |
|---|---|---|
| **13.** | **Strategaeth Cludo Nwyddau ar gyfer Canolbarth Cymru**<br>Nododd AE fod cyllid wedi'i dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru i symud ymlaen gyda Strategaeth Cludo Nwyddau ar gyfer Canolbarth Cymru, ar y cyd â PML y Gororau. Bydd ymgynghorwyr yn gweithio nawr gyda Chymru ar y broses o fapio a rhwydweithio, ac ar anghenion cludo nwyddau ar draws y rhanbarth. Mae peth ymgysylltu wedi digwydd yn barod yn ystod Digwyddiad Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru, a chynhelir cyfarfod gyda nifer o fusnesau allweddol ar draws y rhanbarth ar 6ed Ebrill 2017, wedi'i drefnu gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Nododd CS iddi fynychu'r Gweithgor Traws-sector yng Nghaerdydd, a nododd LIC bod yn rhaid cael tystiolaeth i gefnogi unrhyw benderfyniad buddsoddi a wneir.<br><br>Nododd y Cyng. Alun Williams yr hoffai weld dymunoldeb cludo nwyddau'n cael ei gynnwys yn y strategaeth, i weld beth sy'n bosibl/beth mae busnesau am ei gael, a beth fyddai'n atal hynny rhag digwydd. Nododd AE sylw'r Cynghorydd AW.<br><br>Nododd AE y bydd dogfen ar y cyd yn cael ei chwblhau yn Ebrill, a'i chyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bartneriaeth yng Ngorffennaf 2017. | 13. A Freight Strategy for Mid Wale |
| **14.** | **Ystyried ymateb i Ymgynghoriad yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar y papur gwyrdd "Industrial Strategy" (i'w gyhoeddi 17eg Ebrill).**<br><br>Cyfeiriwyd at yr Adroddiad sydd ynghlwm mewn perthynas â'r ymateb i Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU, a'r ymgynghoriad ar y papur gwyrdd "Building our Industrial Strategy".<br><br>Nodwyd bod y ddogfen yn ymdrin â phum 'colofn', gyda rhai ohonynt yn delio â materion sydd heb eu datganoli, neu wedi'u datganoli'n rhannol neu'n llawn ar gyfer Canolbarth Cymru, ac mae'n rhoi pwyslais cryf ….??<br><br>Nododd MS mai pwrpas cyflwyno hon heddiw oedd codi proffil y ddogfen am ei bod hi'n bwysig iawn ac yn gofyn am ymgysylltu. Mae'n bwysig parhau'r ddeialog â Llywodraeth Cymru a chynnwys hynny fel rhan o'r ymateb terfynol. | 14. Building Our Industrial Strategy Re |

| | | |
|---|---|---|
| **15.** | **Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith, Diweddariad ar gyfer Chwarter 1, 2017**<br><br>Cyflwynodd AE yr adroddiad sydd ynghlwm i'r Bartneriaeth ar faterion trafnidiaeth strategol a gwaith y Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith.<br><br>Tynnodd AE sylw'r Bartneriaeth at ddau ymgynghoriad sydd ar y gweill:-<br><br>1) **Masnachfraint Rheilffordd Cymru a'r Gororau – Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru** - Ymgynghoriad yn dod i ben Mai 2017.<br>2) **Gwasanaethau Bws – ymgynghoriad Llywodraeth Cymru:** Ymgynghoriad yn dod i ben 31ain Mai 2017.<br><br>Cododd AE bryderon am gyfran y cyllid trafnidiaeth leol sy'n dod i'r rhanbarth. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i fynegi'r pryderon hyn.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i AE am ei diweddariad heddiw. | 15. Connectivity and Infrastructure Report |
| **16.** | **Gohebiaeth a dderbyniwyd:**<br>Dosbarthwyd gwybodaeth o Gynhadledd Arloesi Bwyd Cymru a gynhaliwyd yn Celtic Manor yn ddiweddar.<br><br>Hefyd dosbarthwyd taflen newydd yn disgrifio Campws Arloesi a Menter Aberystwyth. | |
| **17.** | **Unrhyw Fater Arall**<br>Nid oedd unrhyw faterion ychwanegol i'w trafod. | |
| **18.** | **Dyddiad pellach: 28ain Gorffennaf 2017** | |